



Proms a pheddlau!

Bydd y mis hwn yn gweld dychweliad dau ddigwyddiad cenedlaethol pwysig i fwrdeistref sirol Caerffili.

Ar **Ddydd Sadwrn 8fed o Fedi** bydd BBC Cymru, mewn partneriaeth â'r cyngor, yn dod â noson o gerddoriaeth hudol i Gaerffili ar gyfer **BBC PROMS YN Y PARC** eleni.

Bydd Cyflwynydd y One Show, Alex Jones ac arweinydd Only Men Aloud, Tim Rhys-Evans yn cyd-gyflwyno'r digwyddiad yng Nghaeau Chwarae Owain Glyndŵr Caerffili, ar ddydd Sadwrn 8 Medi am 7.45pm.

Gellir prynu tocynnau o flaen llaw am £10 (gyda phlant 12 ac o dan am ddim), a gellir eu harchebu drwy Sefydliad y Glowyr Coed Duon (**01495 227206** / www.blackwoodminersinstitute.com); Llinell Cynulleidfaoedd Cymru Cerddorfa

Genedlaethol y BBC (**03700 10 10 51**); neu yn bersonol drwy gysylltu â chanolfan 'Croeso Caerffili.' Mae tocynnau ar gael hefyd ar y diwrnod am £12.

Yna ar ddydd **Gwener 14 Medi** mae reid beic **TAITH PRYDAIN** yn dychwelyd i'r ardal wrth i ni groesawu dros 100 o feicwyr elitaidd o bob rhan o'r byd fel y maent yn carlamu drwy strydoedd y fwrdeistref sirol.

Byddant yn mynd i mewn i'r fwrdeistref sirol ger Nelson a theithio i lawr i Ystrad Mynach ac yna dilyn yr hen ffordd drwy Lanbradach.



Mae'r cystadleuwyr wedyn yn teithio i Gaerffili ac yn gwynebu DAU ddringad blinedig i ben mynydd Caerffili cyn dod yn ôl i lawr i mewn i'r dref ar gyfer y cyfnod terfyn yng Nghastell Caerffili.



Am fwy o wybodaeth am y digwyddiadau hyn ac eraill ffoniwch
02920 880011 neu ewch i www.caerffili.gov.uk



**Prydau bwyd
ysgol gynradd
£1.80
Prydau Bwyd
Ysgol Uwchradd
£2.05**

Costau prydau bwyd ysgol wedi'u rhewi!

Am y drydedd flwyddyn yn olynol y mae Gwasanaethau Arlwyyo'r Cyngor yn rhewi cost prydau bwyd ysgol ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd ym mis Medi.

Bydd prydau bwyd ysgolion cynradd yn costio ond £1.80 a phrydau bwyd ysgolion uwchradd ond £2.05 ond bydd plant yn dal i dderbyn cynnyrch o safon gan gyflenwyr lleol. Yn ogystal â gweithio â chyflenwyr lleol, y mae cysylltiadau diweddar â Birds Eye wedi arwain at fysedd pysgod mwy iachus. Eisoedd ar gael mewn ysgolion cynradd yng Nghaerffili ac yn cyrraedd ysgolion uwchradd ym mis Medi, y mae'r bysedd pysgod newydd yn cydymffurfio â safonau maeth heb roi straen ar gyllidebau.

Meddai'r Cynghorydd Dave Poole, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden, "Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i gynnig prydau bwyd llawn maeth a chyffrous i'n plant ysgol. Gallwn sicrhau i rieni fod yr holl fwyd a diod sydd ar gael yn yr ysgolion o'r safon orau ac yn diwallu manylebau sydd wedi'u hamlinellu gan Lywodraeth Cymru er gwaethaf rhwystrau cyllidebol."

Pafiliwn Bowllo Bargod yn codi o'r lludw

Mae cyfleuster cymunedol poblogaidd ym Margod wedi ailagor i'r cyhoedd wedi iddo gael ei ailadeiladu o'r lludw yn dilyn ymosodiad cynnau tanau bwriadol dwbl.

Mae Pafiliwn Bowllo Bargod wedi'i ailddatblygu yn llwyr wedi i losgwyr ddinistrio'r hen adeilad am yr ail dro ym mis Chwefror 2011. Roedd yr hen adeiladau modiwlwr wedi dioddef dau ymosodiad mewn 10 mlynedd gan adael y pafiliwn mewn cyflwr y tu hwnt i'w drwsio.

Mae'r strwythur newydd yn adeilad gwedd draddodiadol gan ei wneud yn fwy diogel a llai agored i unrhyw geisiadau cynnau tanau bwriadol yn y dyfodol. Croesawodd y Cynghorydd David Poole, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden, yr adeilad newydd, "Rwy wrth fy modd i gyhoeddi ailagor Pafiliwn Bowllo Bargod. Mae'r adeilad newydd nid yn unig yn fwy diogel ond y mae ganddo gyfleusterau gwell ac y mae'n fwy hygyrch. Mae'n bwysig bod gan bobl leol gyfleusterau cymunedol a mannau gwyrdd fel hyn i'w mwynhau."

Bydd y pafiliwn newydd yn galluogi trigolion i barhau i ddefnyddio'r lawnt fowlio a'r adeilad ar gyfer achlysuron yn y dyfodol.



CBSC yn gwneud chwilio am swydd yn symlach

Bydd Canolfan Hamdden Caerffili yn cynnal Digwyddiad Recriwtio a Gwybodaeth ar Ddydd Mawrth 25ain Medi rhwng 10.00am ac 1.00pm.

Mae cyngor bwrdeistref sirol Caerffili yn cydweithio â'r Ganolfan Byd Gwaith i gynnal y digwyddiad a fydd yn gweld 25 o gwmnïau yn hysbysebu eu cyfleoedd swyddi rhan amser a llawn amser diweddaraf.

Hefyd, bydd amrywiaeth o gynrychiolwyr ar gael o'r Cyngor i drafod cyfleoedd lleoliadau gwaith a phrentisiaethau yn ogystal ag arweiniad ar lenwi ffurflenni cais a sgiliau chwilio am swydd. Hefyd, bydd colegau lleol a darparwyr dysgu ar gael i drafod unrhyw anghenion dysgu. Hefyd, bydd cynrychiolwyr y Ganolfan Waith wrth law ar gyfer unrhyw gymorth a chynghor manwl sydd ei angen. Os hoffech chi dderbyn gwybodaeth bellach ar y digwyddiad cysylltwch â Maggie James, Swyddog AD ar **01443 866752** neu e-bostio jamesmf@caerffili.gov.uk



Eich Newline

"Cynhyrchir Newline gan y cyngor i ddod â'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth atoch o ar draws y fwrdeistref sirol. Rydym yn awyddus i glywed eich sylwadau am y cyhoeddiad a byddwn yn croesawu unrhyw adborth. Cysylltwch â fi os oes unrhyw ymholiadau gennych am y wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn Newline a byddaf yn danfon eich sylwadau ymlaen at yr adran berthnasol. Cofiwch - cewch fersiynau sain a phrint bras o Newline ar gais."

Stephen Pugh - Golygydd e-bost: pughs@caerffili.gov.uk

Post: Uned Gyfathrebu, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.



Cynlluniau am ysgol Gymraeg newydd ar y gweill

Mae cynlluniau cyffrous yn bwrw ymlaen i ddatblygu ysgol Gymraeg newydd i blant sy'n byw yn ardal fasn Caerffili.

Dyweddodd y Cyng. Rhiannon Passmore, Aelod Cabinet Addysg, "Mae'r galw am addysg cyfrwng Gymraeg wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, ac erbyn hyn, mae angen darparu lleoedd ychwanegol ar frys mewn ysgolion uwchradd Gymraeg yn y fwrdeistref sirol."

Mae'r ysgol uwchradd Gymraeg bresennol, sef Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, wedi cyrraedd ei chapasiti llawn, rhagwelir y bydd 900+ o ddisgyblion yn fwy na'r capasiti hwn am gael lle yno erbyn 2021.

Y llynedd, cyflwynodd y cyngor gais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru am £20m ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Gwnaed y cais er mwyn sicrhau darpariaeth ar gyfer 900 o leoedd uwchradd ychwanegol ar hen safle ysgol llan Sant yng Nghaerffili, a hefyd i adleoli YGG Caerffili i'r safle.

Aeth y Cyng. Passmore yn ei blaen i ddweud, "Mae'r cais uchelgeisiol hwn yn golygu ehangu Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar hen safle llan Sant, fel safle ychwanegol i'w leoliad presennol yr ysgol yn Nhrelyn, er mwyn ymateb i'r galw cynyddol a pharhaus am addysg cyfrwng Gymraeg. Gwneir hyn yn rhan o strategaeth gyffredinol i ddatblygu campws 3-19 oed a chanddo gyfleusterau trawiadol, fel neuadd chwaraeon pedwar cwrt, a llawer o gyfleusterau eraill fydd yn cael eu rhannu ar y safle."



Cynhelir ymgynghoriad ym mis Tachwedd er mwyn i'r holl randdeiliaid gael mwy o wybodaeth a chael dweud eu dweud ynglŷn â'r cynlluniau. Bydd disgyblion ysgol, staff, llywodraethwyr a rheini yn cael cyfle i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd arbennig, ond dyma'r prif gyfarfodydd cyhoeddus:

Cyfarfod ymgynghori	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Sesiwn Galw Heibio	Dydd Mawrth 13 Tachwedd 9am - 5pm	YGG Y Castell
Cyfarfod Cymunedol/Cyhoeddus	Dydd Mawrth 13 Tachwedd 7pm	YGG Y Castell

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r cynnig, cysylltwch â Julian Williams **01443 864817**, neu anfonwch e-bost i willijn@caerffili.gov.uk. Bydd dogfen ymgynghori hefyd ar gael o'r 1af o Hydref yn www.caerffili.gov.uk/ymgynghoriadcc



Caerffili yn dathlu llwyddiant y Faner Werdd

Mae dau barc gwledig deniadol yn y fwrdeistref sirol wedi derbyn gwobr Baner Werdd urddasol.

Parc Cwm Darran ger Deri a Choedwig Cwmcarn sydd yn barciau poblogaidd yw'r safleoedd diweddaraf yn ardal Caerffili i dderbyn y wobwr y mae mawr alw amdani.

Croesawodd y Cynghorydd Ken James y newyddion, "Rydym ni wrth ein bodd mai Parc Cwm Darran a Choedwig Cwmcarn

yw'r atyniadau diweddaraf i dderbyn y wobwr baner werdd urddasol. Mae hyn yn helpu i bwysleisio'r mannau agored gwych sydd gennym ni yma yn y fwrdeistref sirol."

Mae eisoes gan dri pharc lleol Faner Werdd - Parc Morgan Jones yng Nghaerffili, Parc Waunfawr yn Crosskeys a Pharc y Wern, Nelson - ond y rhain yw'r parciau gwledig cyntaf i dderbyn y wobwr sydd yn arwydd i ymwelwyr fod y safle wedi'i gynnal a'i reoli yn dda a bod ganddo gyfleusterau ardderchog.

Am wybodaeth bellach ar atyniadau yn y fwrdeistref sirol ewch i www.caerffili.gov.uk

Cynigion i fynd i'r afael â thlodi wedi'u cymeradwyo

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cefnogi'n swyddogol y cynigion i gyflwyno Cyflog Byw, a fydd yn cael ei weithredu o 1af Hydref 2012.

Mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ddiweddar, cytunodd yr aelodau gyda'r cynlluniau uchelgeisiol i ddileu problem y rhai sy'n byw o dan y trothwy tlodi yn yr ardal - drwy sicrhau bod gweithwyr y cyngor yn cael eu talu o leiaf £7.20 yr awr.

Dyweddodd y Cynghorydd Harry Andrews, Arweinydd y Cyngor, "Mae'r penderfyniad sylweddol hwn, a dderbyniodd gefnogaeth aruthrol gan aelodau, yn ddifrif cyd-fynd â'n gweledigaeth i fynd i'r afael â thlodi a gwella safonau byw ar gyfer ein gweithwyr tâl isaf".

Ychwanegodd, "Mae'r penderfyniad hwn yn dangos ein bod yn cymryd safiad ar gyfer dros 3,000 o weithwyr sydd ar gyflogau isel, y mwyafrif ohonynt yn fenywod, staff rheng flaen, drwy sicrhau nad oes unrhyw un o'n gweithlu yn ennill llai na'r isafswm cyflog."

Er bod sicrhau bod holl gyflogau gweithwyr yn cael eu cynyddu uwchben y llinell dlodi yw mantais bennaf y cynigion, budd eraill sydd wedi eu cefnogi gan dystiolaeth trwy ymchwil, yw gostyngiad

mewn absenoldeb, recriwtio a dargadwad haws, yn ogystal â morâl, cymhelliant ac ymrwymiad gwell.

Ychwanegodd y Cynghorydd Keith Reynolds, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros Wasanaethau Corfforaethol, "Mae'r fenter bellgyrhaeddol hon yn ffurfio rhan allweddol o'n cynlluniau adfywio ehangach ar gyfer y fwrdeistref sirol gyfan. Fel arweinydd cymunedol, byddwn hefyd yn gweithio'n galed i hyrwyddo manteision gweithredu'r Cyflog Byw i gyflogwyr eraill yn yr ardal."



Ein Hamcanion Gwella 2012-13

Bob blwyddyn rydym ni'n gosod nifer o flaenoriaethau ar draws bob gwasanaeth y Cyngor lle yr ydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar feysydd lle yr ydym ni am lwyddo i gael gwelliannau yn gyflymach.

Ein henw ar gyfer y blaenoriaethau hyn yw ein Hamcanion Gwella. Cafodd y meysydd hyn eu dewis wedi'u seilio ar ystod o wybodaeth fel; yr hyn y dywedoch chi eich bod am ei chael; lle y mae angen heb ei ddiwallu neu fwllch yn y gwasanaeth sydd ar gael; ein perfformiad; a'r hinsawdd economaidd ymhlith pethau eraill.

Nid yw ein hamcanion yn cymryd lle nac yn ein rhwystro rhag cyflawni y nifer o bethau eraill rydym ni'n eu gwneud ond, yn ystod y cyfnod rhwystrau ariannol hwn, mae'n dda canolbwyntio ar ganlyniadau penodol a rhoi gwybod i chi, ein trigolion, am y meysydd y gellwch chi ddisgwyl i ni eu gwella.

Meddai **Anthony O'Sullivan**, ein Prif Weithredwr, "Yn ystod y blynyddoedd i ddod y mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar ymgysylltu â'n dinasyddion ac yn ymateb i'r hyn y maent yn dweud wrthym ni am ein gwasanaethau. Rydym yn gwybod, trwy ein gwaith ymchwil cynharach, bod swyddi, economi lewyrchus, tai da a lle diogel i fyw yn nodweddion cryf ymhlith ein dinasyddion. Rydym ni'n falch i adeiladu ar yr anghenion hyn a chyflwyno ein 8 Amcan Gwella"



Anthony O'Sullivan
Prif Weithredwr

Sut ellwch chi fod yn rhan o bethau?

Gobeithiwn eich bod yn mwynhau darllen am sut y mae eich Cyngor yn gweithio ar wneud gwahaniaeth ar eich rhan chi. Gellwch chi ddarllen cynllun llawn ein Hamcanion Gwella ar www.caerffili.gov.uk. Rydym yn croesawu unrhyw atborth efallai yr hoffech chi ei roi am y pethau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. Mae modd i chi ddweud eich dweud ar a ydych chi'n meddwl mai dyma'r pethau cywir i ni weithio arnynt trwy anfon e-bost i perfformiad@caerffili.gov.uk neu drwy gysylltu â'r Uned Rheoli Perfformiad ar **01443 864238**.

1. Amcan Gwella

Sicrhau bod dinasyddion Bwrdeistref Sirol Caerffili yn deall pam, pryd a sut i ymgysylltu â ni a'r effaith y bydd eu hymgysylltu yn ei chael o ran ein helpu ni i wella gwasanaethau.

Y canlyniadau y gellwch chi eu disgwyl:

- Byddwn yn gwella'r ffordd ein bod yn ymgysylltu â dinasyddion a rhoi atborth iddynt.
- Bydd gan ein dinasyddion ddealltwriaeth well o'u rôl ymgysylltu â'r cyngor a deall sut y gallent ddylanwadu ar ffurfio polisiau a gwasanaethau.
- Yn 2013 bydd Arolwg Cartrefi y cyngor yn dangos bod canfyddiadau cwsmeriaid o'n gwasanaethau wedi gwella.
- Bydd gennym ni gymysgedd cynrychiolaeth da o ddinasyddion sydd yn cymryd rhan ym mhob un o'n gweithredoedd ymgynghori / ymgysylltu sydd yn cyd-fynd â demograffeg y boblogaeth leol.
- Trwy ein proses cwyno corfforaethol byddwn yn casglu gwybodaeth a fydd yn ein helpu ni i wella'r modd ein bod yn gweithredu.

2. Amcan Gwella

Gwneud Caerffili yn lle mwy diogel i fyw yno.

Y canlyniadau y gellwch chi eu disgwyl:

- Rydym am gynyddu canfyddiadau aelodau'r cyhoedd o ran effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth o ran gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau.

3. Amcan Gwella

Cynnal yr ystod o gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer trigolion.

Y canlyniadau y gellwch chi eu disgwyl:

- Cefnogi busnesau, yn enwedig rhai micro, bach a chanolig, i gynnal neu ddiogelu, y gorau y gallwn ni, nifer y swyddi y gallwn eu creu trwy gynnal grantiau a'r cyngor arbenigol sydd yn cael ei roi i fusnesau.
- Helpu i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth trwy weithio mewn partneriaeth â rhaglenni sydd yn helpu i roi'r sgiliau a'r addysg angenrheidiol i oedolion a phobl ifainc ennill cyflogaeth.

4. Amcan Gwella

Gwella lefelau sgiliau plant a phobl ifanc.

Y canlyniadau y gellwch chi eu disgwyl:

- Gwella lefelau sgiliau ein dysgwyr trwy'r amcanion sydd wedi'u gosod o fewn strategaeth Sgiliau Caerffili i wella mynediad i ddysgu.
- Lleihau nifer y bobl ifainc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- Lleihau nifer yr oedolion ifainc sydd yn gadael ysgol heb gymhwyster.
- Lleihau nifer y plant a'r bobl ifainc sydd wedi'u gwahardd o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn barhaol.

5. Amcan Gwella

Hyrwyddo manteision ffordd o fyw iach a gweithredol.

Y canlyniadau y gellwch chi eu disgwyl:

- Cynyddu nifer yr holl bobl sydd yn ymgymryd â gweithgareddau hamdden ac yn cymryd rhan mewn pob math o weithgarwch corfforol ledled ein bwrdeistref sirol.
- Gwella iechyd a lles ar gyfer pobl o fewn ein bwrdeistref sirol yn yr hir dymor.

6. Amcan Gwella

Oedolion sydd o fewn y system gofal cymdeithasol yn gallu arwain bywydau llawn, gweithredol ac annibynnol.

Y canlyniadau y gellwch chi eu disgwyl:

- Bydd defnyddwyr ein gwasanaeth yn derbyn ymateb mwy amserol a phriodol, a caiff nifer yr asesiadau sydd yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen ei chynyddu.
- Gwella safon yr asesiadau.
- Cyflymu'r amser y mae'n rhaid i chi aros rhwng cael eich asesu a derbyn y gwasanaethau y cytunwyd arnynt.
- Bydd safonau'r gofal yr ydym yn ei gynnig yn gwella ansawdd bywyd ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth.
- Byddwn yn gweithredu ar ôl derbyn cwynion er mwyn gwella.

7. Amcan Gwella

Bydd asiantaethau yn cydweithio i helpu plant, pobl ifainc a theuluoedd sydd yn profi anawsterau.

Y canlyniadau y gellwch chi eu disgwyl:

- Trwy ddefnyddio Tîm o Amgylch y Teulu byddwn yn cefnogi teuluoedd sydd ag anghenion sydd yn dod i'r amlwg i atal yr anghenion hynny rhag cynyddu i bwynt sydd yn galw am ymglymiad statudol.

8. Amcan Gwella

Lleihau ein hól troed carbon a gwella ein cynladwyedd.

Y canlyniadau y gellwch chi eu disgwyl:

- Lleihau allyriadau CO² o'n hadeiladau a'n goleuadau stryd.
- Lleihau effaith tlodi tanwydd ar gartrefi ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.
- Codi ymwybyddiaeth am faterion newid hinsawdd ymhlith ein staff a thrigolion y fwrdeistref er mwyn eu galluogi i leihau eu hallyriadau carbon.
- Lleihau effaith ein teithio a'n trafndiaeth ar yr amgylchedd.

A greener place to live, work and visit
Man gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld



Cwblhau Gwelliannau Priffordd

Mae cynllun mawr £14miliwn i wella'r rhwydwaith ffyrdd o amgylch y datblygiad ysbyty newydd yn Ystrad Mynach wedi'i gwblhau.

Bydd Gwelliannau Priffyrdd Ysbyty Ystrad Fawr yn helpu i fynd i'r afael â thagfeydd a gwella llif y traffig ar y groesffordd strategol allweddol rhwng yr A469 a'r A472.

Datguddiodd Arweinydd CBSC, y Cynghorydd Harry Andrews, blac arbennig ar y safle. "Rwy wrth fy modd i nodi'n swyddogol cwblhau tri phrif gyfnod o waith a fydd yn helpu i wella y rhwydwaith priffordd wrth y lleoliad prysur hwn. Hoffwn ddiolch i'r bobl leol am eu hamyneddgarwch yn ystod y gwaith ac yn awr yn edrych ymlaen at weld y manteision a ddaw o ganlyniad i'r drefn ffyrdd well," meddai ef.

Cychwynnodd y gwaith yn 2009 ar gyfnod un y cynllun gan weld adeiladu pont newydd o'r A469 a galluogi mynediad i gerbydau i safle trawiadol yr ysbyty newydd yn Ysbyty Ystrad Fawr.

Yn dilyn hyn cafwyd dau gyfnod arall o waith gwella a'r nod oedd lleihau tagfeydd ac ehangu llif y traffig trwy'r ardal.

Mae'r ffyrdd tuag at gylchfan Cwm-du wedi'u had-drefnu a ffordd gyswllt benodedig - a enwyd Ludwigsburger Strasse er anrhydedd ein gefeilldref - wedi'i hadeiladu er mwyn cyfeirio traffig o'r A469 i Faes-y-cwmwr yn uniongyrchol.



Mae un cylchfan yn cymryd lle y ddau gylchfan bychan cyferbyn â thafarn y Royal Oak yn cynnwys cerflun pridd godidog o Ddeilen Derwen yn ei ganol.

Darparwyd y cyllid ar gyfer y gwelliannau gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Grant Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwaith gweddnewid Trecelyn ar droed!

Mae'r cynllun i adfywio Trecelyn wedi hen gychwyn, gyda'r gwaith o osod palmant newydd bellach wedi'i gwblhau ar lawer o strydoedd drwy'r dref, a'r gwaith o ail-alinio cyffyrdd allweddol yn parhau.

Bydd cam 1 o welliannau canol y dref yn parhau hyd yn ddiweddarach eleni, gan roi gwedd newydd sbon i'r dref, drwy gyflwyno pafinau mwy llydan a diogel, wyneb gwell ar y ffyrdd a mannau cyhoeddus mwy atyniadol. Gwneir yr holl waith drwy ddefnyddio deunyddiau pafin o ansawdd uchel, dodrefn stryd deniadol a gwaith celf nodedig a arweinir gan y gymuned. Mae'r gwaith o adfer adeiladau hanesyddol y Neuadd Goffa a'r Stiwt hefyd ar droed, gyda bloc cyswllt newydd y Stiwt wedi'i godi a gwaith ailwampio mewnol ar y gweill. Drwy'r cynlluniau uchelgeisiol, bydd yr adeiladau'n cael eu hadfer a'u hadfywio'n llawn fel canolbwynt diwylliannol i'r dref.



Dyweddodd y Cyng. Ken James, yr Aelod Cabinet Adfywio: "Mae Trecelyn ar drothwy cyfnod cyffrous, ac mae'r gwaith gwella i'w weld yn amlwg erbyn hyn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda masnachwyr lleol er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod y bydd busnesau'r dref yn parhau i fod ar agor ac er mwyn annog pawb i gefnogi eu busnesau lleol yn ystod y gwaith."

Bydd Alun Griffiths (Contractors) Ltd, sydd yn cyflawni cynllun gwella canol y dref, yn parhau i roi'r holl wybodaeth ddiweddaraf i fusnesau a phreswylwyr lleol am gynnydd y gwaith.

Ariennir Rhaglen Adfywio Trecelyn yn rhannol o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru ynghyd â chyfraniadau sylweddol gan y Cyngor a chan sefydliadau cymunedol, ymysg eraill. Ewch ar rith-daith i weld Trecelyn ar ei newydd wedd yn www.caerffili.gov.uk neu ewch i [YouTube](https://www.youtube.com) a chwilio am "Adfywio Canol Tref Trecelyn."

Hwb cymunedol cyfleus ym Mhalas Rhisga

Mae'r cyngor yn dod â hyd yn oed mwy o wasanaethau cymunedol i drigolion wrth i bwynt casglu newydd ar gyfer Undeb Credyd Cymunedol Islwyn ymuno â'r gwasanaethau llyfrgell a Chwsmeriaid yn Gyntaf poblogaidd sydd eisoes ar gael ym Mhalas Rhisga sydd newydd ei adnewyddu.

Cychwynnodd Undeb Credyd Cymunedol Islwyn yn 1998 fel cwmni cydweithredol cyllid wedi'i redeg gan y gymuned sydd yn annog ei aelodau i gynilo cyn benthyg. Yn debyg i fanciau, y mae modd i'w aelodau gael mynediad i fenthyciadau ond rhai sydd â chyfraddau llog llawer is. Mae'r pwynt casglu newydd wedi'i leoli ym Mhalas Rhisga ar brynawn Dydd Mawrth yn ymuno â nifer o bwyntiau casglu ledled y fwrdeistref yn cynnwys Markham, Trinant a Choed Duon. Am wybodaeth bellach ar ddod yn aelod o Undeb Credyd Cymunedol Islwyn ffoniwch **01495 222832** neu e-bostio info@islwyncu.co.uk.





Gwaith yn cychwyn ar Ganolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Newydd yn Rhymni

Dechreuodd gwaith ar safle ym mis Ebrill 2012 ar ganolfan iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd ar Ystâd Ddiwydiannol Lawn yn Rhymni. Mae cam cyntaf y gwaith wedi cynnwys clirio'r safle, gosod polion sylfaen ar gyfer sylfeini'r adeilad a symud ac adleoli llwybr cyhoeddus sy'n croesi'r safle. Mae gwaith adeiladu'r adeilad newydd hefyd wedi dechrau erbyn hyn.

Mae'r datblygiad yn cadarnhau'r ymrwymiad a roddwyd i'r boblogaeth leol yn ystod yr ymgynghoriadau cyhoeddus ar Ysbyty Ystrad Fawr, yr ysbyty cyffredinol lleol newydd yn Ystrad Mynach, ac wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag anghenion penodol cymunedau yng Ngogledd Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cafodd 'MedicX', y buddsoddwr a datblygwr eiddo gofal iechyd o'r DU, ei benodi yn 2009 i ddylunio ac adeiladu'r ganolfan ac mae'r cwmni wedi gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Llywodraeth Cymru a Meddygon Lleol i ddylunio cyfleuster iechyd a gofal cymdeithasol modern a adeiladwyd i bwrpas. Mae Fforwm Cymunedol, sy'n cynnwys trigolion lleol, sefydliadau gwirfoddol, aelodau etholedig a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, hefyd wedi bod ynghlwm â'r cynllunio, gan sicrhau llais lleol ar y cyfleusterau sy'n cael eu cynnig.

I fod i agor yn ystod haf 2013, bydd y ganolfan yn cyflenwi'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gan Ysbyty Ystrad Fawr. Mae'r gwasanaethau a bwriadir cynnal yn y ganolfan yn cynnwys 2 bractis meddyg teulu, practis deintyddol, swîth optometreg, a chyfleoedd dydd gwasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal, bydd y ganolfan yn gweithredu fel man sefydlog ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio yng Ngogledd

y fwrdeistref, sy'n darparu gofal i amrywiaeth eang o bobl gan gynnwys plant, pobl hŷn, a phobl sy'n derbyn cymorth iechyd meddwl. Fe fydd yna 12 o welyau cleifion mewnol yn y ganolfan, â 2 o'r rhain yn cael eu dynodi ar gyfer gofal lliniarol.



Dywedodd Bronwen John, Pennaeth Partneriaethau a Rhwydweithiau dros y Bwrdd Iechyd, sy'n Rheolwr Prosiect y cynllun, y bydd y ganolfan newydd yn dod â nifer o wasanaethau gwahanol at ei gilydd mewn un adeilad. 'Mewn gwirionedd, bydd hwn yn lloeren o'r ysbyty newydd ac mae'r gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu wedi cael eu trafod a'u cytuno trwy'r Fforwm Cymunedol, gan y bobl a fydd yn eu defnyddio yn y pen draw. Mae'n amser cyffrous i ofal iechyd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili gan ein bod yn gweithio i ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau triniaeth a gofal ar gael yn lleol, drwy adeiladu cyfleusterau modern fel yr ysbyty newydd ac yn awr y canolfan adnoddau ar gyfer y Gogledd. Fe fydd pobl leol yn derbyn mynediad i ddewis ehangach o wasanaethau nad oedd ar gael yn flaenorol' meddai hi.

Dywedodd Albert Heaney, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghaerffili, 'Bydd y ganolfan yn gwella gallu'r gwasanaethau cymunedol presennol a dod a nifer

o dimau iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd, a fydd yn darparu gwasanaethau yn y gymuned ac o'r ganolfan ei hun. Edrychaf ymlaen at weld y cyfleuster trawiadol hwn yn dwyn ffrwyth dros y misoedd nesaf wrth i'r gwaith symud ymlaen.'

Dywedodd Ashley Heath (Cyfarwyddwr Eiddo Gofal Iechyd - MedicX), 'Mae cyfleusterau gofal iechyd modern, y gellir eu darparu o fewn y gyllideb wrth ddarparu gwerth am arian, yn hanfodol ar gyfer cymunedau lleol. Rydym yn hyderus y bydd y ganolfan newydd gwych yma yn trawsnewid profiad y claf. Rydym yn falch iawn i ddatblygu'r canolfan iechyd a gofal cymdeithasol eithaf y grefft yma yn Rhymni, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Llywodraeth Cymru, a'r meddygon teulu lleol ac rydym yn gobeithio y bydd pawb wrth eu bodd gyda'r hyn a fydd yn cael ei gyflawni yn y pen draw.'

Mae partneriaid a MedicX yn awyddus i gadw mewn cysylltiad agos â'r gymuned yn y Gogledd ac yn bwriadu cynnal cyfarfodydd pellach o'r Fforwm Cymunedol wrth i'r prosiect symud ymlaen.

Am fwy o wybodaeth ar y datblygiad neu i ddod yn aelod o'r Fforwm, cysylltwch â Kathryn Wall (Swyddog Prosiect) ar **(01495) 241275** neu drwy e-bost kathryn.wall@wales.nhs.uk



Eich Diogelu Chi

Mae Isadran Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yn diogelu ein hamgylchedd lleol ac yn sicrhau bod pob un ohonom ni yn mwynhau ansawdd bywyd diogel, iach yn ogystal â hyrwyddo cymuned lewyrchus.

Mae'r rôl hon yn cynnwys sicrhau gorfodaeth nifer o gyfreithiau sydd yn cynnwys sancsiynau troseddol ar gyfer y rhai sydd yn eu torri. Gall y rhain gynnwys diogelwch bwyd, iechyd a diogelwch, baeddu gan g_n, gollwng sbwriel, torri safonau masnach a materion trwyddedu ayb.

Meddai'r Cynghorydd Dave Poole, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden, "Mae'r tîm yn gweithio'n galed i ddiogelu pobl leol. Mae'n ymdrin â phopeth o ollwng sbwriel i ymddygiad gwrthgymdeithasol ac y mae nifer y gweithredoedd gorfodaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dangos yn glir ei fod yn defnyddio dull dim nonsens. Hefyd, mae'r tîm ar gael 24/7 i ymateb i broblemau brys."

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cynnig llun eang o'r ystod o weithredoedd gorfodaeth ffurfiol yn ystod 2011/12. Yn ogystal â'r ymyriadau ffurfiol isod caiff cannoedd o rybuddion a rhybuddiadau anffurfiol eraill (yn ysgrifenedig ac ar lafar) eu rhoi bob blwyddyn.

Math o weithgarwch gorfodaeth

Nifer y gweithredoedd



Deddfwriaeth diogelwch bwyd :

e.e. gweithredoedd o ganlyniad i gynnal arolwg ar fwytai neu siopau pryd ar glyd ayb. Yn cynnwys rhybuddion ysgrifenedig, hysbysiadau cynghori a chau.

998



Safonau Masnach a Thrwyddedu:

e.e. gweithredoedd ffurfiol fel erlyniadau, rhybuddiadau a hysbysiadau cosbau ar gyfer anhrefn yn erbyn modurdai sydd yn gwerthu ceir sydd wedi'u 'clocio', casgliadau dillad didrwydded, torri amodau gan weithredwyr tacsî, gwerthu alcohol i bobl dan oed ayb.

119

Iechyd a Diogelwch:

e.e. gweithredoedd ffurfiol fel llythyron rhybudd, hysbysiadau ac erlyniadau am dorri amodau yn y gweithle neu arferion anniogel fel tatŵydd yn gweithredu heb gofrestru yn gywir â'r cyngor.

195



Deddfwriaeth Amgylcheddol a Niwsans:

e.e. baeddu gan gŵn, gollwng sbwriel, diflastod s_n, llygredd, anifeiliaid crwydr ayb

749

Deddfwriaeth Diogelwch Cymunedol:

- Atgyfeiriadau i'r broses Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol 4 Streic
- Eitemau o alcohol a atalafaelwyd mewn mannau cyhoeddus
- Achosion wedi'u monitro / ymdrin â nhw gan weithredwyr teledu cylch cyfyng (yn cynnwys ceisiadau Heddlu Gwent)

40

618

749



Am wybodaeth bellach ffoniwch y Tîm Diogelu'r Cyhoedd ar **01495 235316** neu ewch **www.caerffili.gov.uk**.

Cyhoeddi adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol Blynyddol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cyhoeddi ei trydydd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r adroddiad yn anelu at hysbysu trigolion a phartneriaid mewn sefydliadau eraill ar ba mor dda mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu darparu ym mwrdeistref sirol Caerffili, ynghyd a meysydd blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Dywedodd Albert Heaney, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol

Caerffili, "Mae fy nghyfarwyddiaeth yn anelu at ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i drigolion bwrdeistref sirol Caerffili, ac rydym yn ymdrechu i ennill parch a boddhad y trigolion hyn drwy welliant parhaus yn ein gwasanaethau, wedi ein gyrru gan onestrydd, gwaith tîm a chymhelliant ein staff."

Ychwanegodd "Byddwn yn parhau i weithio'n ddiflino i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i'n trigolion, ac rwyf wedi ymrwmo i broses o fonitro'r ffordd yr ydym yn gwneud busnes i helpu gwella gwasanaethau i bawb sy'n eu defnyddio yn awr, ac i'r rhai a allai eu defnyddio yn y dyfodol."

Mae cyflawniadau allweddol hyd yma yn cynnwys rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn sefydliad Rhaglen Eiddilwch Gwent, a gafodd ei lansio ym mis Ebrill 2011, ac mae'r integreiddio a gytunwyd o Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cynghorau Bwrdeistref Sirol Caerffili a Blaenau Gwent.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Woodyatt, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, "Mae'r adroddiad clodwiw hon yn nodi'r cynnydd sylweddol a wnaed hyd yma yn y maes gwasanaeth hanfodol hwn, ac yr wyf yn gwbl hyderus byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf er budd yr holl bobl."

Mae copi llawn o Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr a DVD cysylltiedig, sy'n cynnwys detholiad o straeon digidol a grëwyd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael ar **www.caerffili.gov.uk/socialservicesacr**

ANNUAL DIRECTOR'S REPORT ON THE
EFFECTIVENESS OF SOCIAL CARE SERVICES
2011-2012



Pontio'r Bwlch Rhwng y Cenedlaethau

Mae adnodd cymunedol Ebenezer ym Mhengan wedi datblygu llawer o rwydweithiau yn y gymuned leol, gan gynnwys disgyblion o Ysgol Gymraeg Trelyn.

Sefydlwyd prosiect rhwng yr ysgol ac Ebenezer fel bo modd i'r plant gysylltu â'r gymuned ehangach yn rhan o'u datblygiad yn yr ysgol.

O ganlyniad i'r berthynas hon, aeth y plant ar ymweliad i Ebenezer i ymarfer gyda'r 'Ebenezer Players', ac fe gafwyd perfformiad ardderchog o ddrama ar ddiwedd yr ymweliad hwnnw. Penllanw'r cynllun oedd gwaith effeithiol rhwng dwy garfan o wahanol oeddrannau, sef y plant a pherfformwyr y grŵp.

Ym mis Mehefin, perfformiodd yr Ebenezer Players eu cynhyrchiad unigryw o 'Dream Coats and Petticoats' o flaen cynulleidfaoedd o 150 yn Eglwys Ebenezer ym Mhengan. Cymerodd y disgyblion ran yn y perfformiad, a mwynhawyd y perfformiad hwnnw gan gynulleidfa werthfawrogol iawn, a oedd yn cynnwys teuluoedd, gofalyddion, aelodau o'r eglwys a Maer CBSC, y Cyng. Gaynor Oliver.

"Roedd yn berfformiad gwirioneddol gofiadwy a fwynhawyd gan bawb, ac yn benllanw i ymarfer a gwaith caled ar ran yr oedolion ag anabledau dysgu sydd yn perthyn i Ebenezer Players" meddai'r Cyng. Oliver.

Bydd staff Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn cefnogi canolfan adnodd gymunedol Ebenezer, ac mae cynlluniau fel hyn yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni wrth weithio mewn partneriaeth mewn lleoliad yn y gymuned.

Useful Numbers

MAIN SWITCHBOARD
PRIF SWITSFWRDD
☎ **01443 815588**

Minicom
Minicom
☎ **01443 873626**

Emergency number for all services:
Rhif argyfwng ar gyfer pob gwasanaeth:
☎ **01443 875500**
(Out of hours only - Allan o Oriau yn unig)

Adult's Social Services
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
☎ **0808 100 2500**

StreetPride **BalchderStryd**
☎ **01443 866566**

Rhifau Defnyddiol

Children's Social Services
Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
☎ **0808 100 1727**

Consumer Advice
Cyngor i Ddefnyddwyr
☎ **01495 235111**

Council Tax Enquiries
Ymholiadau Treth y Cyngor
☎ **01443 863002**

Furniture Recycling
Ailgylchu Dodrefn
☎ **01685 846830**

Housing & Council Tax Benefits
Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor

New Claims: Rhiflau Newydd: **01443 866567**
Existing Claimants: Rhiflwy Newydd: **01443 864099**

FOSTER APPEAL

The Council needs foster carers to care for children over the age of 10.

We offer extensive support, comprehensive training and attractive fees. If you have room in your home and time in your life, why not call **0800 587 5664** or visit www.caerphilly.gov.uk/fostering

Celebrating Achievement

Each year the council celebrates the achievements of Looked After Children and Care Leavers through an annual award ceremony, which is enthusiastically attended by the children and their foster carers.

This year's Achievement Awards were split into two separate age groups - the younger age group at Penallta House and the older age group at the Maes Manor Hotel. Children at the younger event enjoyed refreshments and entertainment in the form of a magic show after the presentation ceremony. While the children and young people at the older event had a glittering 'Oscar style' evening complete with a wandering illusionist, refreshments and a street dance display after the presentation.

In the spirit of good corporate parenting, Caerphilly Children's Services, Education and Health representatives have jointly worked together to arrange the celebrations. Nominations were received from a wide range of professionals involved in the lives of our looked after children and care leavers, which covered the nomination categories of Personal Achievement, Education & School Life and Sports & Leisure. Each child nominated received a certificate presented at the event, along with a gift voucher.

Dathlu Llwyddiant

Bob blwyddyn y mae'r cyngor yn dathlu llwyddiannau Plant sy'n Derbyn Gofal a Phobl sy'n Gadael Gofal trwy seremoni wobrwyo flynyddol sydd yn cael ei mynychu yn frwd gan y plant a'u gofawlwr maeth.

Rhannwyd Gwobrau Llwyddiant eleni yn ddau grŵp oedran ar wahân – y grŵp oedran iau yn Nhŷ Penallta a'r grŵp oedran hŷn yng Ngwesty'r Maes Manor. Mwynhaodd y plant a fynychodd y digwyddiad iau luniaeth ac adloniant sioe hud a lledrith ar ôl y seremoni wobrwyo. Tra bod y plant a'r bobl ifainc a fynychodd y digwyddiad hŷn wedi mwynhau noson 'arddull gwobrau Oscar' grand yn cynnwys lledrithiwr crwydrol, lluniaeth ac arddangosiad dawnsio stryd yn dilyn y seremoni wobrwyo.

Yn ôl ysbryd rianta corfforaethol da, mae cynrychiolwyr Gwasanaethau Plant, Addysg ac Iechyd Caerffili wedi cydweithio i drefnu'r dathliadau. Derbyniwyd enwebiadau gan ystod eang o broffesiynolwyr sydd yn rhan o fywydau ein plant sy'n derbyn gofal a'n pobl sy'n gadael gofal a oedd yn cynnwys y categorïau Llwyddiant Personol, Addysg a Bywyd Ysgol a Chwaraeon a Hamdden. Derbyniodd pob plentyn a gafodd ei enwebu dystysgrif yn ystod y digwyddiad ynghyd â thaleb.

What's ON / Digwyddiadau

www.caerphilly.gov.uk/events • www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk • Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk

EcoPark Bat Walk

Taith Gerdded Ystlumod ParcEco
20/07/2012, 11am

Cefn Fforest Eco Park • Parc Eco Cefn Fforest

Join Alex Pollard from Eco-explore and Valleys Bat Group for an exciting insight into the life of bats. A short talk will be followed by a walk through Cefn Fforest EcoPark to see the bats in their natural habitat. Solid footwear and a torch are necessities. Call or email s.griggs@hotmail.co.uk to book your place.

Ymunwch ag Alex Pollard o Eco-explore a Grŵp Ystlumod y Cymoedd ar gyfer mewnlwng cyffrous i fywyd ystlumod. Caiff sgwrs fer ei dilyn gan daith gerdded trwy Barc Eco Cefn Fforest i weld yr ystlumod yn eu cynefin naturiol. Mae esgidiau cadarn a tortsh yn hanfodol. Ffoniwch neu e-bostio s.griggs@hotmail.co.uk i archebu eich lle.

079 7091 6188

Coed Y Werin Open Day

Diwrnod Agored Coed-y-werin
16/09/2012 - 10am

Coed Y Werin, Caerphilly • Coed-y-werin, Caerffili

Come and explore the area in the company of enthusiastic volunteers. There will be activities of interest to all ages. For further details please telephone John Spencer.

Dewch i archwilio yr ardal yng nghwmni gwirfoddolwyr brwdfrydig. Bydd gweithgareddau o ddiddordeb i bob oedran. Am fanylion pellach ffoniwch John Spencer.

02920 869684

Llancaiach Fawr Manor

Halloween Half Term Fun

Ghost Tours
6.30pm 30/10/2012 - 2/11/2012
Tickets £13.50 adults/young person 12-16 years old £10.

Teenage Halloween Ghost tours
Wednesday 31st October 6pm & 7.30pm £15 per person.

Halloween Ghost Tours
Wednesday 31st October 9.30pm
£25 per person and 11pm £30 per person.

Take a tour of the manor by candlelight to hear true stories of the uncanny things that have happened to staff and visitors over the years. Places must be booked for all tours. Numbers limited for safety reasons.

Activity Days
11am - 4pm 30/10/12- 02/11/12
Craft activities and games for children. Suitable for children up to 11yrs. Children must be accompanied by an adult.

An evening of Mediumship
Starts at 7pm £10 per person.
These are all ticketed events. Call to book.

www.llancaiachfawr.co.uk • 01443 412248

Maenordy Llancaiach Fawr

Hwyl Hanner Tymor Calan Gaeaf

Teithiau Ysbrydion
6.30pm 30/10/2012 - 2/11/2012
Tocynnau £13.50 oedolion / pobl ifainc 12 – 16 oed £10.

Teithiau Ysbrydion Calan Gaeaf i Arddegolion
Dydd Mercher 31ain Hydref
6.00yh a 7.30yh £15 y person.

Teithiau Ysbrydion Calan Gaeaf
Mercher 31ain Hydref 9.30yh
£25 y person ac 11.00yh £30 y person.

Dewch ar daith o amgylch y maenordy yng ngolau cannyll a gyvrando ar straeon gwir o'r digwyddiadau rhyfedd y mae aelodau staff ac ymwelwyr wedi'u profi dros y blynyddoedd. Rhaid bwcio lle ar gyfer pob taith tywys. Cyfyngir y niferoedd am resymau diogelwch.

Diwrnodau Gweithgareddau
11am - 4pm 30/10/12- 02/11/12
Gweithgareddau crefft a gemau i blant. Addas ar gyfer plant hyd at 11 oed. Mae'n rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.

Noswaith o Gyfryngaeth
7pm £10 y person.
Mae rhain yn digwyddiadau tocyn yn unig. Ffoniwch i archebu lle.

Bargoed Open Air Cinema • Sinema Awyr Agored Bargoed

7th September 2012, 8pm
Emporium Car Park Bargoed
This popular free event returns again this year with Disney's epic Cars 2.

7fed Medi 2012, 8pm
Maes parcio yr Emporium, Bargoed
Mae'r digwyddiad rhad ac am ddim poblogaidd hwn yn dychwelyd unwaith eto eleni gan ddangos y ffilm Disney, Cars 2.

Business Support Roadshow

Sioe Deithiol Cymorth Busnes
19/09/2012, 10am - 2pm

Cherry Tree House, Carlton Drive, Pen-y-Fan Industrial Estate • Tŷ Cherry Tree, Carlton Drive, Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-fan

Free support and advice for start-ups and growing businesses from a wide range of business support agencies. Exhibition and seminars. Call 01443 866 222 or email: businessevents@caerphilly.gov.uk for further information.

Mae cymorth a chynghor rhad ac am ddim am fusnesau newydd a rhai sy'n tyfu ar gael o ystod eang o asiantaethau cymorth busnes. Arddangosfeydd a seminarau. Ffoniwch 01443 866 222 neu e-bostiwch digwyddiadaubusnes@caerffili.gov.uk am ragor o wybodaeth.

01443 866 222

Electric Blanket Testing

Profi Blancedi Trydan
27/09/2012, 10 - 4pm

Blackwood Miners Institute • 27/09/2012
St Johns Ambulance Centre, Risca • 28/09/2012

Trading Standards will be giving out safety advice and testing electric blankets.

Sefydliad y Glowyr Coed Duon • 27/09/2012
Canolfan Ambiwllans St John, Rhisga • 28/09/2012

Bydd Safonau Masnach yn rhoi cyngor ar ddiogelwch ac yn profi blancedi trydan.

01495 235 291

Celebration Barn Dance

Dawns Werin Ddathlu
05/10/2012, 7.30pm

St Andrews Church, Penyrheol • Eglwys St Andrews, Pen-yr-heol

Dance your cares away to celebrate the 50th Anniversary of St Andrew's Church. This is a free event.

Dawnsiwch yn ddi-baid i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu Eglwys Andrew Sant. Digwyddiad rhad ac am ddim.

Gwent Archives: Exploring History

Archifau Gwent: Archwilio Hanes
20/10/2012 - 12pm

Winding House, New Tredegar • Tŷ Weindio, Tredegar Newydd

Gary Tuson, County Archivist will lead an informative talk about the Gwent archives. Residents can learn more about the care of important documents and facilities available for researchers. Booking Essential.

Bydd Gary Tuson, Archifydd y Sir yn arwain sgwrs llawn gwybodaeth ar archifau Gwent. Gall trigolion ddysgu mwy am ofalu am ddogfennau pwysig a'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer ymchwilwyr. Archebu lle o flaen llaw yn hanfodol.

01443 822 666

Halloween Fun! Horrible History

Hwyl Calan Gaeaf! Hanesion Hyll
30/10/12 - 02/11/2012, 10am - 4pm

Winding House, New Tredegar • Tŷ Weindio, Tredegar Newydd

Delve into the past this October Half-Term and discover creepy creatures, spooky stories and ghastly goings-on in this week of family activities and crafts! The historic winding engine will run at 12pm and 3pm. Admission: FREE.

Archwiliwch i'r gorffennol yr hanner tymor mis Hydref hwn a dewch o hyd i bryfetach, straeon bwganlyd a digwyddiadau dychrynlyd yn ystod yr wythnos o weithgareddau a chrefftau i'r teulu hon! Bydd yr injan weindio hanesyddol yn rhedeg am 12.00yp a 3.00yp. Mynediad: RHAD AC AM DDIM.

01443 822 666



Don't forget to vote!

Elections for Police and Crime Commissioners (PCCs) will take on 15 November 2012.

The Police and Crime Commissioner is a new role that will replace your local police authority. Police and Crime Commissioners will be responsible for the strategic management of the police and the appointment of the Chief Constable who will maintain operational control of the force.

If you are not already registered you need to apply by **31st October** to be able to have your say. If you would like to apply for a postal vote then you need to do so by 5pm on the same date (31st October). The deadline for a new proxy vote is 7th November at 5pm.

For this election a new voting system called the Supplementary Vote will be used. You will be able to vote for your first and second choice (if there's more than two candidates). If a candidate receives more than half of all first choice votes, they are elected immediately. If this does not happen, the two candidates with the most first choice votes go through to a second round. All other candidates are eliminated, but their second choice votes for either of the top two candidates are added to the totals for those two candidates from the first round. The candidate with the highest combined total of first and second choice votes will be elected.

Visit www.caerphilly.gov.uk or call 01443 864203 for more details

PROTECTING YOU

The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe & fair place for people to live, work & visit. One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

Below are examples of recent prosecutions:

Defendant	Offence	Court Decision
Darren Gurner of James Street, Llanbradach.	26th July 2012 at Caerphilly Magistrates Court. Unlawful dumping of waste.	100 hours of unpaid work in the community, £347.95 costs to the Local Authority and a £15 victim surcharge. Environmental Protection Act 1990.
Peter Parry	26th July 2012 at Caerphilly Magistrates Court. Littering offence.	£100 fine, £85 costs to the Local Authority and a £15 victim surcharge. Environmental Protection Act 1990.
Laura Nash	12 July 2012 at Caerphilly Magistrates Court. Sale and possession for supply of counterfeit clothing.	£170 fine, £150 costs to the Local Authority and £15 victim surcharge and forfeiture of counterfeit clothing. Trade Marks Act 1994.
Mohammed Ifkhar trading as Londis Stores, Treowen.	12 July 2012 at Caerphilly Magistrates Court. Sale of alcohol to person under the age of 18.	12 months conditional discharge, £100 costs to the Local Authority. Licensing Act 2003.
Huw Ludlam Ltd of Nelson.	12 July 2012 at Caerphilly Magistrates Court. Supply of a motor vehicle without declaring fact it was a total loss and engaged in a commercial practice which contravened the requirements of professional diligence.	£2000 fine, £1,415.38 costs to the Local Authority and £15 victim surcharge. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008.

To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions
Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.